

Cysylltiadau diamedr mawr

Cais

I ddarparu cysylltiad diamedr mawr o 50mm neu fwy - Adran 45 a 55 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Cadwch gopi o'r cais hwn ar gyfer eich cofnodion eich hun.

Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran nodiadau canllaw.

Defnydd swyddfa'n unig
LDC

Adran 1A: Manylion yr ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd	Nodyn 1.1	Enw cyswllt
Cyfeiriad	Nodyn 1.2	Rhif ffôn
		Rhif ffôn symudol
Cod Post		Cyfeiriad e-bost
Rhif cwmni cofrestredig	Nodyn 1.3	

Adran 1B: Manylion Asiant/Ymgynghorydd (i'w gwblhau dim ond os defnyddir asiant/ymgynghorydd)

Enw'r asiant/ymgynghorydd	Nodyn 1.4	Enw cyswllt
Cyfeiriad	Nodyn 1.2	Rhif ffôn
		Rhif ffôn symudol
Cod Post		Cyfeiriad e-bost
Rhif cwmni cofrestredig	Nodyn 1.3	

Adran 1C: Manylion y safle

Enw a chyfeiriad y safle	Nodyn 1.5	Cyfeirnod cais cysylltiedig	Nodyn 1.7
Cod Post		Beth ydych chi'n ei adeiladu ar y safle?	
Cyfeirnod arolwg ordnans	Nodyn 1.6		

X

Y

Adran 1D: Gohebiaeth

Gyda phwy ddylem ni ohebu?

Ymgeisydd Asiant

Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi?

E-bost Post

A oes unrhyw un arall y byddech chi'n hapus i ni drafod eich cais ag ef/hi? Rhowch wybod i ni yma:

Adran 2: Manylion y contractwr

Enw'r contractwr

Nodyn 2.1

Enw cyswllt

Cyfeiriad

Nodyn 1.2

Rhif ffôn

Cod Post

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

Rhif cwmni cofrestredig

Nodyn 1.3

Adran 3: Rheoliadau Rheoli Adeiladu a Dylunio (CDM) 2015

1. A yw'ch prosiect yn hysbysadwy? Nodyn 3.1

Mae eich prosiect yn hysbysadwy os bydd gwaith adeiladu yn para mwy na 30 diwrnod gwaith a bod mwy nag 20 o weithwyr yn gweithio ar yr un pryd ar unrhyw adeg yn y prosiect; neu'n cynnwys mwy na 500 o ddyddiau person.

Os nad ydy, ewch i gwestiwn 3

Ydy Nac ydy

2. A yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael gwybod bod eich prosiect yn hysbysadwy? Nodyn 3.2

Os nad ydy, mae angen i chi gysylltu â'r HSE yn www.hse.gov.uk i ddweud wrthynt fod eich prosiect yn hysbysadwy cyn i chi gyflwyno'r ffurflen gais hon.

Ydy Nac ydy

3. A yw'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer cleient domestig? Nodyn 3.3

Ydy Nac ydy

4. Os ateboch ydy i gwestiwn 3, ydych chi wedi rhoi gwybod i'r prif ddylunydd a/neu'r prif gontractwr am eu cyfrifoldebau? Nodyn 3.4

Ydw Nac ydw

5. Os ateboch nac ydy, i gwestiwn 3, rhowch fanylion cyswllt ar gyfer y cleient, y prif ddylunydd a/neu'r prif gontractwr isod Nodyn 3.5

Nodwch: I gael gwybodaeth am Reoliadau CDM 2015, ewch i www.hse.gov.uk

(adran 3 parhad)

Enw'r cleient (os yw'n wahanol i'r ymgeisydd)

Enw'r prif gontractwr (os yw'n wahanol i'r contractwr uchod)

Cyfeiriad

Cyfeiriad

Cod Post

Cod Post

Enw cyswllt

Enw cyswllt

Rhif ffôn

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad e-bost

Enw'r prif ddylunydd

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad

Cyfeiriad e-bost

Cod Post

Enw cyswllt

Rhif ffôn

Adran 4: Cyflwr y tir

Mae angen i ni wybod ar gyfer beth y defnyddiwyd y safle yn y gorffennol er mwyn i ni allu penderfynu a oes unrhyw halogyddion a fydd yn effeithio ar ddeunydd y bibell sydd i'w gosod. Os yw'r tir wedi'i halogi, gellir gohirio'r cysylltiad nes i chi gymryd camau amddiffynnol neu adferol. Heb y wybodaeth hon, ni allwn asesu'ch cais.

1. A ddefnyddiwyd y safle yn flaenorol ar gyfer: **Nodyn 4.1**

- a) Tir glas/amaethyddiaeth b) Tai c) Diwydiant d) Tirlenwi
e) Arall (rhowch fanylion):

2. A oes unrhyw dystiolaeth bod deunydd [tir wedi'i greu] wedi'i gludo i mewn i'r safle? **Nodyn 4.**

Oes Nac oes

3. A oes unrhyw ddiwyddiadau llygru wedi bod yn neu gerllaw'r safle/a oes unrhyw safleoedd gerllaw y gwyddys eu bod wedi'u halogi? **Nodyn 4.3**

Oes Nac oes

Os oes i 2 neu 3, rhowch fanylion cryno:

4. A yw'r pibellau i gael eu gosod mewn tir sydd (neu sy'n debygol o fod) wedi'i halogi â chyfansoddion organig actif ar yr wyneb neu gan gyfryngau ocsideiddio crynodedig? **Nodyn 4.**

Ydyn Nac ydyn

Nodiadau:

- Os ydych wedi dewis b, c, d neu e ar gyfer cwestiwn 1 a/neu wedi dewis 'Oes' i gwestiwn 2 a/neu 3, mae angen adroddiad dadansoddi pridd y safle a rhaid ei gynnwys pan fyddwch yn cyflwyno'r ffurflen gais hon. **Nodyn 4.5**
- Os oes angen adroddiad dadansoddi pridd, ond nad yw wedi ei gynnwys gyda'r ffurflen gais, byddwn yn parhau i brosesu'r cais a bydd disgwyl i chi osod pibellau gwarchoddedig, a allai gynyddu cost y gwaith sydd i'w wneud. Codir ffi am ail ddyfynbris arnoch hefyd os cyflwynir adroddiad dadansoddi pridd yn ddiweddarach.

Adran 5: Y cyflenwad presennol

1. A oes ffynnon, twll turio neu gyflenwad preifat ar y safle?

Oes Nac oes

2. A oes cyflenwad byw gan Hafren Dyfrdwy ar y safle ar hyn o bryd?

Oes Nac oes

Os oes, rhowch y rhif cyfrif Hafren Dyfrdwy i ni **Nodyn 5.1**

Os nad oes, neidiwch ymlaen i'r adran nesaf

3. Ydych chi'n bwriadu cadw'r cyflenwad dŵr byw?

Ydw Nac ydw

Os ydych yn bwriadu defnyddio cyflenwad presennol sydd â mesurydd wrth adeiladu o'r newydd, rhowch y rhif cyfrif Hafren Dyfrdwy i ni.

Nodyn 5.2

Nodwch: os nad ydych am ddefnyddio cyflenwad presennol â mesurydd, codir tâl arnoch am ddŵr ar gyfer adeiladu.

Adran 6: Y rheswm dros gael cysylltiad **Nodyn 6.1**

Defnyddio a chysylltu â'r biben wasanaeth bresennol ond heb fod angen cysylltiad newydd â phrif bibell HD

Eiddo newydd

Adnewyddu/newid y cyflenwad i'r presennol

Cyflenwi adeilad dros dro yn unig

Trosi adeilad

Eiddo presennol heb gyflenwad blaenorol

Cafn amaethyddol

Arall (rhowch fanylion isod):

Adran 7: Cyflenwadau blaenorol

1. Dywedwch wrthym am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael cysylltiad dŵr neu garthffos blaenorol sydd wedi'i filio gan Hafren Dyfrdwy (HD) o fewn y pum mlynedd diwethaf. **Nodyn 7.1**

Os bu gan yr eiddo yma gysylltiad na fydd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'ch datblygiad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a allwn osod credydau ar eich taliadau seilwaith a allai leihau'r swm y bydd angen i chi ei dalu.

Cyfeiriad yr eiddo blaenorol	Defnydd blaenorol	Dyddiad dymchwel	Rhif Cyfrif HD

Ffitiadau dŵr blaenorol	Cyfanswm
Seston fflysio toiled	
Basn ymolchi mewn tŷ	
Basn ymolchi mewn man arall	
Baddonau (maint tapiau 20mm)	
Baddonau (tapiau'n fwy nag 20mm)	
Cawod	
Sinciau (maint tapiau 15mm)	
Sinciau (tapiau mwy na 15mm)	
Tap chwistrellu	
Bidet	
Offer domestig (e.e. peiriant golchi llestri, peiriant golchi, uned gwaredu gwastraff)	
Offer cymunedol neu fasnachol	
Unrhyw ffitiad neu allfa ddŵr arall (gan gynnwys tap, ond heb gynnwys wrinal neu feddalydd dŵr)	

Nodwch: codir taliadau seilwaith yn unol â'n Cynllun Taliadau

2. Ydych chi eisiau talu'r ffi seilwaith cyn i'r cysylltiad gael ei wneud?

Ydw Nac ydw

Os nad ydych, nodwch y cewch anfoneb ar wahân pan fydd y cysylltiad wedi'i wneud.

(adran 9 parhad)

Tabl 9B

Nodwch: rhaid llenwi'r tabl hwn ar gyfer pob cysylltiad sydd ei angen (gwnewch gopïau ychwanegol yn ôl yr angen).

Ffitiadau dŵr i'w gosod		Manylion tanc torri/storio			
Uned neu enw'r plot	Cyfanswm nifer	Nifer a gyflenwir o storfa	Maint Falf	Cyfanswm Nifer	Lleiafswm cyfradd llenwi tanc
Ffitiadau					
Sestonau fflysis toiled					
Sestonau fflysis awtomatig					
Basnau mewn cartrefi					
Basnau mewn mannau eraill					
Baddonau (maint tapiau 20mm)					
Baddonau (tapiau'n fwy nag 20mm)					
Cawodau					
Sinciau (maint tapiau 15mm)					
Sinciau (tapiau mwy na 15mm)					
Tapiau chwistrell sengl					
Bidets					
Peiriannau golchi llestri					
Peiriannau golchi dillad					
Peiriannau gwerthu diodydd					
Tap bib piben					
Arall (rhowch fanylion)					
a) Dŵr proses (porthiant uniongyrchol) mewn litrau yr eiliad					
Rhowch fanylion...		I/s			
b) Anghenion llif arfaethedig					
Cyfartaledd defnydd dyddiol (litrau y dydd)					I/p/d
Hyd defnydd y dydd (h.y. gweithio am 8 awr, 18 awr neu 24 awr)					awr
Y llif dŵr brig (litrau yr eiliad)					I/s
Capasiti storio a ddarperir (litrau)					I
c) Anghenion ymladd tân (Bydd angen pibell wasanaeth cwsmer/preifat ar wahân ar gyfer cyflenwad ymladd tân)					
Cyflenwad chwistrellwyr tân (litrau yr eiliad). Nodyn 9.4					
Dylid dylunio systemau chwistrellu yn unol â BS EN 12845:2004 a Diwygiad 2:2009					
Os yw'n danc storio capasiti llawn, dylai'r gyfradd llif lenwi'r tanc mewn 36 awr					
Os yw'n danc storio llai nodwch beth yw lleiafswm cyfradd lenwi'r tanc					I/s
Cyflenwad hydrant tân (litrau yr eiliad).					I/s
A fydd unrhyw elfennau o'r dŵr ymladd tân yn cael eu darparu o storfa?					
Os bydd, nodwch faint y fflôt _____ mm a chapasiti'r tanc _____					Bydd <input type="checkbox"/> Na fydd <input type="checkbox"/>

Caiff lleiafswm o 1.0Bar a cholofn 10/m eu cynnal gan HD yn y tap cau wrth y ffin. Nodyn 9.5

Nodwch: ar sail y wybodaeth a roddwch i ni, byddwn yn gwneud asesiad ac yn darparu maint pibell a maint mesurydd fydd yn rhoi'r gyfradd llif angenrheidiol. Gall hyn fod yn wahanol i'r gyfradd llif rydych chi wedi gofyn amdani.

Adran 10: Cynigion carthffosiaeth

1. A fydd dŵr budr yn gollwng yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r garthffos gyhoeddus? **Nodyn 10.1**

Yn uniongyrchol Yn anuniongyrchol

2. A fydd dŵr wyneb yn gollwng yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r garthffos gyhoeddus? **Nodyn 10.2**

Yn uniongyrchol Yn anuniongyrchol

Os bydd i'r uchod, ydych chi'n wneud cais ar wahân am gysylltiad carthffos i;

a) Hafren Dyfrdwy

Ydw Nac ydw

Os ydych, rhowch rif cyfeirnod y cais:

neu b) cwmni dŵr arall

Ydw Nac ydw

Nodwch:

3. Os nad ydych yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus, sut bydd y dŵr budr a'r dŵr wyneb yn cael ei ddraenio?

4. Os bydd dŵr wyneb yn gollwng i garthffos gyhoeddus, nodwch gyfanswm arwynebedd y safle gan gynnwys manau parcio ac arwynebedd â glaswellt

Nodwch: rhaid gwneud cais ar wahân am gysylltiadau carthffosiaeth. Gallwch lawrlwytho ffurflenni o www.hdcymru.co.uk/developers

Adran 11: Rhestr wirio a thalu

Sicrhewch eich bod yn anfon yr holl wybodaeth atom er mwyn i ni allu prosesu'ch cais a dod yn ôl atoch cyn gynted â phosibl.

Mae ffi am y cais; mae i'w gweld isod. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am y ffioedd yn hdcymru.co.uk/newconnectioncharges neu drwy'n ffonio ni ar **0330 678 1481**.

Mae'r opsiynau talu ar y dudalen nesaf, ond os ydych chi'n talu trwy siec, gwnewch yn siŵr ei bod yn sownd yn ddiogel i'r ffurflen gais a bod yr holl eitemau'n cael eu postio gyda'i gilydd.

Rhestr wirio (ticiwch i gadarnhau eich bod wedi cynnwys yr isod neu nad oes mo'i angen)	Wedi'i gynnwys	Nid oes angen
Cynllun lleoliad yn dangos yr eiddo sydd angen cysylltiad (h.y. cynllun arolwg ordnans)		
Adroddiad dadansoddi pridd os oes angen (gweler adran 4)		
Cynllun o'r safle yn dangos llwybr pibell wasanaeth y cwsmer i ffin y briffordd		
Ar gyfer eiddo masnachol, cynllun i raddfa o'r safle yn dangos arwynebedd y safle cyfan ac arwynebedd pob uned		
Taliad cychwynnol - gweler ein llyfryn taliadau diweddaraf sydd ar gael ar ein gwefan hdcymru.co.uk/newconnectioncharges i weld y ffioedd (un taliad ar gyfer pob cysylltiad diamedr mawr).		
Tystiolaeth bod yr eiddo domestig wedi cael eu hadeiladu yn unol â Rhan G (ar gyfer Cymru) Rheoliadau Adeiladu 2010 ar gyfer 110 litr neu lai o ddŵr ypyd. Gall hyn fod yn gopi o Adroddiad Cydymffurfio Rhan G neu gopi pdf o ganlyniadau'r Water Calculator .		

Anfonwch eich cais ynghyd â'r holl ddogfennau eraill mewn ffeil zip trwy e-bost i new.connections@hdcymru.co.uk. Dywedwch wrthym ar ba ddyddiad wnaethoch chi anfon e-bost atom ac o ba gyfeiriad e-bost:

Dyddiad (DD/MM/BBBB):

Cyfeiriad e-bost:

Adran 12: Manylion talu

Dywedwch sut y byddwch yn talu'r ffi ymgeisio:

Siec Cerdyn debyd/credyd BACS

Taliadau cerdyn debyd/credyd - byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn derbyn y ffurflen gais er mwyn cymryd taliad.

Siec - Gwnewch yn daladwy i Hafren Dyfrdwy Cyf a'i phostio atom gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.

Taliad BACS - dywedwch ar ba ddyddiad y gwnaed y taliad, pwy a'i gwnaeth a'r rhif cyfeirnod BACS fel y gallwn baru'ch cais â'ch taliad.

Mae angen gwneud taliad BACS cyn i chi gyflwyno'ch cais.

Cyf BACS	
Talwr	
Dyddiad	
Swm	

Anfonwch unrhyw geisiadau wedi'u llenwi a'r wybodaeth ategol at:

Hafren Dyfrdwy Cyf
PO Box 5311
Coventry
CV3 9FL

Neu anfonwch nhw trwy e-bost at new.connections@hdcymru.co.uk

Os byddwch yn anfon eich cais atom drwy e-bost, byddwn yn cymryd y byddwch yn talu gyda cherdyn credyd/debyd a byddwn yn cysylltu â chi i gael taliad.

Os bydd angen i chi gysylltu â ni, ffoniwch ni ar **0330 678 1481**.

Adran 13: Datganiad (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd)

Rwy'n dymuno gwneud cais am gyflenwad dŵr newydd fel y nodir yn y ffurflen hon o dan Adran 45 neu 55 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Trwy hyn, rwyf yn gofyn i Hafren Dyfrdwy Cyf brosesu fy nghais a darparu dyfynbris i mi am y cysylltiad yn seiliedig ar y wybodaeth yr wyf wedi ei rhoi.

Trwy lofnodi'r ffurflen hon rwy'n cadarnhau:

- Mai'r Ymgeisydd yw perchennog/deiliad yr eiddo sydd dan sylw yn y cais hwn.
- Y bydd yr holl ofnion statudol, gan gynnwys heb gyfyngiad, Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a Rheoliadau (CDM) 2015 yn cael eu bodloni.
- Deallaf y gellir codi ffi aiddylunio arnaf os bydd angen i mi newid y cais am gysylltiad wedi iddo gael ei ddylunio.
- Os nad ydynt wedi eu talu eisoes, bydd yr holl daliadau seilwaith yn daladwy pan wneir y cysylltiad.

Llofnodwyd

Swydd (os ydych chi'n arwyddo ar ran Cwmni)

Enw llawn mewn priflythrennau

Enw'r cwmni (os ydych chi'n arwyddo ar ran Cwmni)

Cyfeiriad yr Ymgeisydd

Dyddiad

Cod Post

Byddwn yn asesu'ch cais ac yna'n anfon dyfynbris i chi am y cysylltiad(au). **Mae'r dyfynbris yn ddilys am chwe mis, ond nid yw'n eich ymrwymo mewn unrhyw fodd i barhau â'r cysylltiad.**

Dim ond gyda'r partïon hynny a nodwyd ar y cais y byddwn yn trafod y cysylltiad hwn. Os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl er mwyn peidio ag oedi eich cais.

Nodiadau canllaw

Nodyn 1: Manylion yr ymgeisydd

- 1.1 Yr Ymgeisydd yw perchennog/deiliad y safle sydd angen y cysylltiad. Yr unigolyn/cwmni hwn sy'n gyfrifol am gynnwys y ffurflen gais ac am dderbyn yr amodau a nodir yn natganiad y cais.
- 1.2 Sicrhewch fod y cyfeiriad llawn a'r manylion cyswllt yn cael eu darparu. Gellir defnyddio'r manylion cyfeiriad hyn ar gyfer cysylltu a gohebiaeth yn y dyfodol.
- 1.3 Rhif Cwmni Cofrestredig: Rhif cofrestru'r busnes fel y'i cyhoeddwyd gan Dŷ'r Cwmnïau (www.companieshouse.gov.uk).
- 1.4 Byddwn yn derbyn ffurflen gais a gwblhawyd gan Asiant/Ymgynghorydd, fodd bynnag, yr Ymgeisydd sy'n parhau'n gyfrifol am gynnwys y cais a rhaid iddo/iddi lofnodi'r ffurflen gais.
- 1.5 Rhowch gymaint o gyfeiriad y safle ag sydd ar gael ar adeg cyflwyno'r cais.
RHAID i'r cyfeiriad hwn gynnwys: enw ffordd, tref/dinas a sir.
- 1.6 Mae cyfeirnod yr Arolwg Ordnans yn gyfeirnod grid 12 digid wedi'i rannu'n ddau rif 6 digid (X ac Y).
Gellir cael hwn o www.ordnancesurvey.co.uk
- 1.7 Os ydych wedi gwneud ymholiad datblygu neu wedi cyflwyno unrhyw geisiadau sy'n gysylltiedig â'r safle hwn, rhowch y cyfeirnodau i ni. Bydd hyn yn ein helpu i brosesu eich cais.

Nodyn 2: Manylion y contractwr

- 2.1 Ar gyfer cysylltiadau dŵr, y contractwr fydd y cwmni a fydd yn cwblhau'r gwaith ar y safle. Ar gyfer cysylltiadau carthffosydd, y contractwr fydd y cwmni a fydd yn gwneud y cysylltiad gwirioneddol.

Nodyn 3: Rheoliadau Rheoli Adeiladu a Dylunio (CDM) 2015

- 3.1 Mae eich prosiect yn hysbysadwy os bydd gwaith adeiladu yn para mwy na 30 diwrnod gwaith a bod mwy nag 20 o weithwyr yn gweithio ar yr un pryd ar unrhyw adeg yn y prosiect; neu'n cynnwys mwy na 500 o ddyddiau person.

Nodyn pwysig: Pan fydd prosiect yn hysbysadwy, rhaid i'r cleient roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Gweithredol cyn gynted ag y bo'n ymarferol cyn i'r cyfnod adeiladu ddechrau.

- 3.2 Ceir mwy o wybodaeth am yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a sut i gysylltu â nhw yn www.hse.gov.uk
- 3.3 Cleient domestig yw rhywun sy'n cael gwaith adeiladu wedi'i wneud yn ei gartref ei hunan, neu gartref aelod o'r teulu, nad yw'n cael ei wneud mewn cysylltiad â busnes. Gall awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, elusennau, landlordiaid a busnesau eraill fod yn berchen ar eiddo domestig, ond nid ydynt yn gleient domestig at ddibenion CDM 2015. Os yw'r gwaith yn gysylltiedig â busnes sydd ynghlwm wrth eiddo domestig, megis siop, nid yw'r cleient yn gleient domestig.
- 3.4 Nid yw'n ofynnol i gleient domestig gyflawni'r dyletswyddau a osodir ar gleientiaid masnachol. Os mai un contractwr yn unig sy'n ymwneud â'r gwaith, rhaid i'r contractwr gyflawni dyletswyddau'r cleient yn ogystal â'r dyletswyddau sydd ganddynt eisoes fel contractwr. Yn ymarferol, dylai hyn olygu gwneud fawr ddim mwy i reoli'r gwaith er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch. Os oes mwy nag un contractwr, rhaid i ddyletswyddau'r cleient gael eu cyflawni gan y contractwr sy'n rheoli'r gwaith adeiladu.

Os dymunant, mae gan gleient domestig hyblygrwydd i gytuno (yn ysgrifenedig) gyda'u dylunydd, y pensaer fel arfer, bod y dylunydd yn cydlynu ac yn rheoli'r prosiect. Lle na wneir cytundeb o'r fath, bydd y prif contractwr yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau rheoli prosiect yn awtomatig. yn cael eu rheoli'n briodol.

Nodyn 3: Rheoliadau Rheoli Adeiladu a Dylunio (CDM) 2015 (parhad)

3.5 Mae HSE yn darparu disgrifiad o'r deiliaid dyletswydd eraill, gan gynnwys:

Cleientiaid yw sefydliadau neu unigolion y cynhelir prosiect adeiladu ar eu cyfer.

Prif Ddylunwyr yw dylunwyr a benodir gan y cleient mewn prosiectau sy'n cynnwys mwy nag un contractwr. Gallant fod yn sefydliad neu'n unigolyn sydd â gwybodaeth, profiad a gallu digonol i gyflawni'r rôl.

Prif Contractwyr yw contractwyr a benodir gan y cleient i gydlynu cam adeiladu prosiect lle mae'n cynnwys mwy nag un contractwr.

Fel **ddylunydd**, mae gennym ddyletswydd dan Reoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) 2015 i roi gwybod i chi am ddyletswyddau'r cleient. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod prif ddylunydd cymwys yn cael ei benodi
- Sicrhau bod prif gontractwr cymwys yn cael ei benodi
- Darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y cais hwn ac unrhyw wybodaeth iechyd a diogelwch berthnasol drwy gydol cyfnod dylunio ac adeiladu'r gwaith
- Peidio â chaniatáu i'r gwaith adeiladu ddechrau oni bai bod y prif gontractwr wedi paratoi cynllun i reoli, monitro a chydlynu iechyd a diogelwch yn ystod y gwaith

Ceir rhagor o fanylion yn www.hse.gov.uk

Nodyn 4: Cyflwr y tir

4.1 Diffiniadau o ddefnydd blaenorol

- Tir glas/amaethyddiaeth: Arwynebedd tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer amaethyddiaeth, tir coedwig neu ryw safle arall heb ei ddatblygu
- Tai: Safle wedi'i neilltuo ar gyfer eiddo domestig
- Diwydiant: Safle wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd masnachol neu ddiwydiannol
- Tirlenwi: Safle gwaredu lle caiff gwastraff solet, megis papur, gwydr, a metel, ei gladdu rhwng haenau o faw a deunyddiau eraill yn y fath fodd ag i leihau halogi'r tir cyfagos.

4.2 Mae tir gwneud yn arwynebedd tir sydd wedi ei greu gan ddyn, fel arfer trwy adfer tir corsydd, llynnoedd neu lannau. Defnyddir tirlenwi artiffisial, yn cynnwys deunyddiau naturiol, ysbwriel, ac ati.

4.3 Mae digwyddiadau llygru yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad fyddai wedi peri i'r tir o fewn y safle gael ei halogi; byddai hyn yn cynnwys unrhyw gyfryngau y tynnir sylw atynt yn Nodyn 4.5. Yn ogystal â hyn, ystyrir bod y safle wedi'i halogi os yw wedi'i leoli o fewn 100m i orsaf betrol neu safle diwydiannol a fyddai'n defnyddio ac yn gwaredu cyfryngau halogi.

4.4 Enghreifftiau o'r halogyddion a nodir yng nghwestiwn 4:

- Cyfansoddion organig actif ar yr wyneb: glanedyddion, sebonau, cyfryngau gwlychu neu alcohol
- Cyfryngau ocsideiddio crynodedig: Clorin, asid nitrig ac asid sylffwrig

4.5 Cynhelir ymchwiliad i bridd a thir wedi'i halogi mewn dau gam¹:

Cam I – astudiaeth ddesg

Prif nod adroddiad amgylcheddol Cam I ydy casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i ffurfio model cysyniadol er mwyn bod mewn sefyllfa ble gellir asesu presenoldeb a/neu arwyddocâd unrhyw halogi tir ar y safle. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o hynny yn galluogi cynnal asesiad risg rhagarweiniol.

Cam II – astudiaeth fewnwrthiol

Dyma astudiaeth fewnwrthiol ar y safle sy'n galluogi logio proffil y pridd ac wedi hynny, gellir casglu samplau o bridd a dŵr daear i'w dadansoddi'n gemegol. Caiff y risg ei hasesu wedyn er mwyn canfod y niwed posibl i dderbynwyr ar y safle yn ogystal ag oddi ar y safle o halogyddion y gwyddys amdanynt.

Nodwch: os na chaiff adroddiad dadansoddi pridd cyflawn ei gyflwyno, efallai na fyddwn yn gallu penderfynu beth yw amodau'r tir a byddwn yn parhau i brosesu'r cais a bydd pibellau gwarchoddedig yn cael eu gosod, a allai gynyddu cost y gwaith sydd i'w wneud.

Nodyn 5: Y cyflenwad presennol

5.1 Os oes gennych gyfrif byw ond nad oes gennych unrhyw ddogfennaeth yn cynnwys y rhif cyfrif 10 digid, cysylltwch a'n hadran Gwasanaethau Cwsmeriaid ar **0330 678 1481**.

5.2 Codir tâl arnoch am ddŵr ar gyfer adeiladu os:

- nad ydych yn defnyddio cyflenwad presennol â mesurydd,
- yw'r cysylltiad yn gysylltiad diamedr mawr ar gyfer eiddo domestig wedi'i adeiladu o'r newydd,
- yw'r cysylltiad yn un safonol 25mm neu 32mm ar gyfer unrhyw eiddo domestig wedi'i adeiladu o'r newydd,
- unrhyw eiddo masnachol â chysylltiad 25mm

Nodyn 6: Rheswm dros y cysylltiad

6.1 Nodwch y rheswm pam rydych chi'n gwneud cais am gysylltiad newydd.

Nodyn 7: Cyflenwadau blaenorol

7.1 Mae taliadau seilwaith yn ariannu cynnal ein rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth lleol sydd eu hangen i wasanaethu galw ychwanegol.

Gwneir y taliadau hyn o dan Adran 146 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae atebolrwydd am daliadau seilwaith yn codi pan fo eiddo a godir o'r newydd yn cael ei gysylltu â'r systemau dŵr neu garthffosiaeth cyhoeddus ac yn gallu derbyn dŵr at ddibenion domestig. Ar safleoedd ailddatblygu, rhoddir credyd am bob eiddo a oedd â chysylltiad dŵr yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Bydd taliadau seilwaith yn cael eu cynnwys yn y dyfynbris a gewch ar gyfer cysylltu'r cyflenwad dŵr (er nad oes angen cyfreithiol am daliad nes bod y cysylltiad dŵr wedi'i wneud).

Gweler ein cynllun taliadau cyfredol sy'n nodi gwybodaeth bellach ynglŷn â thaliadau seilwaith (Sylwer nad yw hyn yn berthnasol i'r taliadau cysylltu y mae'n rhaid eu talu ymlaen llaw).

Cofiwch, os nad ydych yn gwybod rhif y cyfrif ar gyfer yr eiddo blaenorol, ni fydd hyn yn atal y cais rhag cael ei brosesu. Fodd bynnag, bydd y wybodaeth hon yn galluogi i'r cais gael ei brosesu'n gyflymach.

7.2 **RHAID** i wybodaeth am adeiladau ychwanegol gynnwys y wybodaeth y gofynnir amdani yn y tabl a ddangosir yng nghwestiwn 1.

Nodyn 8: Manylion plymio

- 8.1 Dŵr llwyd: Dŵr gwastraff a gynhyrchrir o weithgareddau domestig fel golchi dillad, golchi llestri ac ymolchi.
- 8.2 Dylid dylunio systemau chwistrellu yn unol â BS EN 12845:2004 a Diwygiad 2:2009.
- 8.3 Oni chytunir yn wahanol, mae'n amod i'r cysylltiad bod gan bob eiddo newydd sy'n cael ei gysylltu gysylltiad â mesurydd ar wahân at bwrpas bilio. Ble byddwn yn cytuno i wneud cysylltiad unigol i eiddo amlfeddianaeth (fflatiau ac apartments fel rheol), mae'n amod i'r cysylltiad bod pibellau a mesuryddion dŵr yn cael eu gosod yn unol â'r manylebau a osodir yng ngofynion gosod mesuryddion Hafren Dyfrdwy.
- 8.4 Mae yna drefniadau mesur penodol ar gyfer eiddo amlfeddianaeth y mae angen eu deall cyn i'r mesuryddion gael eu gosod.
- Bydd pob uned breswyl unigol a/neu ardal gymunedol yn yr eiddo yn cael ei mesur yn unigol.
 - Caiff y mesuryddion eu darparu gan Hafren Dyfrdwy, ond yn y rhan fwyaf o achosion, byddant yn cael eu gosod gan y datblygwr; fodd bynnag, bydd Hafren Dyfrdwy yn gosod y mesurydd am dâl os gofynnir iddynt. Dim ond mesuryddion a gyflenwir gan Hafren Dyfrdwy a ganiateir.
 - Yn y cam "Derbyn y Dyfynbris" mae angen i'r datblygwr gyflwyno lluniadau o bob llawr sy'n nodi:
 - Pob plot gyda rhif y plot
 - Unrhyw ardal gymunedol a/neu ardal i'r landlord sydd â chyflenwad dŵr
 - Lleoliad arfaethedig pob mesurydd
 - Ni fydd y cysylltiad â'r safle yn cael ei drefnu nes bod y wybodaeth hon wedi'i darparu a'i derbyn. Mae'n ofynnol i'r Datblygwr ddarparu darluniau diwygiedig i ni os gwneir unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i nifer a/neu leoliad yr eiddo preswyl, cyflenwadau cymunedol a'r landlord.

Nodyn 9: Cysylltiad(au) sydd eisiau

- 9.1 Rhoddir enghreifftiau o bwrpasau'r eiddo yn y rhestr isod
- Swyddfa
 - Warws
 - Bloc o fflatiau/apartments
 - Llety myfyrwyr
 - Tŷ - Teras
 - Tŷ - Pâr
 - Tŷ - Ar wahân
- 9.2 Mae sawl ystafell wely sydd mewn tŷ yn effeithio maint y bibell a ddefnyddir ar gyfer y cysylltiad.
- eiddo 1 – 2 ystafell wely = pibell 25mm
 - eiddo 3 – 5 ystafell wely/eiddo 3 llawr = pibell 32mm
 - Ble mae angen systemau chwistrellu, lleiafswm maint y bibell fydd 32mm
- 9.3 Rhowch fanylion y cyfeiriad mewn perthynas â'r eiddo y gwneir y cysylltiad iddo.

Nodyn 9: Cysylltiad(au) sydd eisiau (parhad)

9.4 Ni fydd y cyflenwad i'r system chwistrellwyr yn mynd trwy fesurydd.

Os yw'r system "capasiti dal llawn" i gael ei defnyddio, sicrhewch fod storfa ddigonol yn cael ei chynnwys i ddiffodd unrhyw dân ar y safle heb fod angen dŵr ail-lenwi i'r llestr storio na llif uniongyrchol o brif bibell Hafren Dyfrdwy.

O dan amodau gweithredu arferol, bydd Hafren Dyfrdwy yn ymdrechu i gyflenwi 9 litr yr eiliad ar gyfer hydrantau tân.

Nid yw Hafren Dyfrdwy yn gallu gwarantu cyfraddau llif penodol ar gyfer ymladd tân gan eu bod yn gallu amrywio yn dibynnu ar y galw ar y rhwydwaith cyflenwi dŵr.

Dylid nodi na fydd angen mesurydd ar gyfer cyflenwad i hydrant tân ond y bydd angen i falf unffordd sengl gael ei gosod ar y bibell gyflenwi breifat mor agos â phosibl at y ffin â'r briffordd.

9.5 Mae Hafren Dyfrdwy yn ymdrechu i weithredu ei system ddsbarthu er mwyn cwrdd â meini prawf adrodd ei Lefel Gwasanaeth, i ddarparu o leiaf 10 metr o wasgedd (1.0 bar) ar ffin yr eiddo. Fodd bynnag, at bwrpas dylunio ar gyfer systemau, mae Hafren Dyfrdwy yn anelu at gael gwasgedd 15 metr (1.5 bar) o fewn y prif bibell ddŵr.

Gall fod tarfu ar gyflenwadau Hafren Dyfrdwy yn achlysurol oherwydd nifer o ffactorau, felly dylid ystyried darparu cyfleusterau storio priodol os oes prosesau masnachol sy'n dibynnu ar ddŵr o'r prif gyflenwad er mwyn parhau i weithio yn gysylltiedig â'r cynigion.

Nodyn 10: Cynigion carthffosiaeth

10.1 Dŵr budr: Dŵr budr yw'r dŵr gwastraff o'ch toiled, bidet, bath, basn, sinc, peiriant golchi, peiriant golchi llestri a chawod ac ati.

10.2 Dŵr wyneb: Dŵr wyneb yw glaw wrth iddo gasglu ar y to ac o amgylch yr eiddo oddi mewn i ffiniau'r eiddo.